| | |
|---|---|
| **Teitl:** | **Gweithiwr Ieuenctid a Chymuned - Tîm Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid** |
| **Lleoliad:** | **Gweithio Ystwyth** |
| **Cyfarwyddiaeth:** | **Addysg** |
| **Cyflog:** | **Gradd 6 (£30,825 - £34,834 y flwyddyn pro rata)** |
| **Oriau:** | **14.48 awr yr wythnos** |
| **Contract:** | **Cyfnod Penodol hyd at 31 Mawrth March 2025** |

Crynodeb o'r Swydd

Bydd y Gweithiwr Ieuenctid a Chymuned yn darparu cymorth, arweiniad, a mentora i bobl ifanc 11-25 oed y nodir eu bod yn agored i niwed, mewn perygl o ddod yn NEET, neu sydd ar hyn o bryd yn NEET (nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant). Yn dibynnu ar anghenion y bobl ifanc a ddynodir, bydd disgwyl i'r gweithiwr ieuenctid weithio tuag at ddeilliannau'r prosiect trwy waith grŵp neu ar sail unigol.

Mae'r swydd hon wedi'i chysylltu'n benodol â chymorth yn y gymuned i bobl ifanc agored i niwed ym Mlaenau Gwent. Bydd y deiliad swydd yn creu pecynnau cymorth pwrpasol ar gyfer yr unigolion hyn er mwyn iddynt allu datblygu a gwireddu eu dyheadau mewn modd cyfannol. Mae'r swydd hon hefyd yn cynnwys disgwyliad o ddarparu cymorth ehangach i bobl ifanc eraill yn y gymuned.

Hysbyseb Lawn

Mae cyfle cyffrous a gwerth chweil wedi agor i unigolyn brwdfrydig ymuno â thîm Gwasanaeth Ieuenctid yr awdurdod a helpu i ddarparu mentora, cymorth, gwybodaeth ac arweiniad i bobl ifanc agored i niwed a/neu sydd ar hyn o bryd, neu sydd mewn perygl o ddod, yn NEET.

Fel Gweithiwr Ieuenctid a Chymuned byddwch yn darparu cymorth i bobl ifanc i nodi eu rhwystrau personol a helpu i gynllunio a datblygu cyfleoedd i oresgyn y rhain.

Byddwch yn datblygu cysylltiadau cryf ag addysg, cynhwysiant ac asiantaethau eraill er mwyn helpu i ddiwallu anghenion y person ifanc a helpu i oresgyn ei rwystrau.

Gan fod y swydd hon yn un gweithio ystwyth, bydd gennych y gallu i ymgymryd â'r rôl o fewn lleoliadau Gwasanaeth Ieuenctid a gartref yn ogystal â lleoliadau pobl ifanc eraill ar draws y Fwrdeistref.

Yn hanfodol i'r rôl mae cymhwyster proffesiynol perthnasol mewn Gwaith Ieuenctid a'r gallu i gofrestru fel 'Gweithiwr Ieuenctid' gyda Chyngor y Gweithlu Addysg (CGA)

(Cymru). Mae profiad blaenorol o weithio gyda phobl ifanc agored i niwed, gan gynnwys darparu mentora a chymorth, hefyd yn hanfodol.

*Os ydych wedi astudio Gwaith Ieuenctid fel rhan o gymhwyster a fyddai'n caniatáu i chi gofrestru fel 'Gweithiwr Ieuenctid' gyda CGA ac nad yw wedi'i nodi'n glir yn nheitl y cymhwyster, nodwch yn eich cais beth a gyflawnwyd ac i ba lefel.*

Mae sgiliau gofynnol yn cynnwys:

- sgiliau rhyngbersonol / cyfathrebu rhagorol gyda'r gallu i uniaethu â phobl ifanc ac ennyn eu brwdfrydedd
- y gallu i weithio'n annibynnol ac fel rhan o dîm aml-asiantaeth,
- y gallu i asesu anghenion pobl ifanc a datblygu cynlluniau gweithredu priodol a
- lefel uchel o wydnwch personol, gan gynnwys y gallu i reoli gwrthdaro a delio â sefyllfaoedd sy'n peri straen.

Gellir cynnig y swydd hon hefyd fel cyfle secondiad. Cyn gwneud cais fel cyfle secondiad, dylai ymgeiswyr geisio cymeradwyaeth i gael eu rhyddhau o'u swydd bresennol gan eu Rheolwr Llinell.

Mae secondiadau ar gael i staff parhaol yr Awdurdod yn unig.

Mae'r swydd yn cynnwys Lwfans Defnyddiwr Car Achlysurol Cymeradwy felly mae mynediad i gerbyd at ddibenion gwaith yn ofynnol.

Cynhelir gwiriad cyn cyflogi trylwyr yn ystod y broses recriwtio. Bydd gofyn i'r deiliad swydd gwblhau cais am Ddatgeliad o Gofnodion Troseddol.

**Dyddiad Cau: I'w gadarnhau 01.08.2024**

**Cyfweliad: I'w gadarnhau TBC**